**Eitem Agenda Rhif 2**

# PANEL PENODIADAU ARBENNIG (PENNAETH GWELLA YSGOLION)

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Gwener 8 Ionawr, 2008 am 2.00pm.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J A Smith (Cadeirydd), J Chamberlain-Jones, S Frobisher, H H Evans, M M Jones a'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau / Dirprwy Brif Weithredwr.

## HEFYD YN BRESENNOL

M Mehmet (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes),David Edwards (Cadeirydd Ffederasiwn Prif Athrawon Sir Ddinbych), Linda Atkin (Pennaeth Personél), Linda M Jones (Swyddog Personél) a Chlerc y Sir ynghyd ag M Phillips (Gatenby Sanderson).

## YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 1 MATERION BRYS

Doedd dim materion brys.

## 2 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2007.

***PENDERFYNWYD** – cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2007 fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.*

## GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD** gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod dan ddarpariaethau Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, tra bo'r eitemau busnes canlynol yn cael eu trafod, gan eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir hi ym Mharagraffau 12 a 13, Rhan 4 Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 3 PENODI PENNAETH GWELLA YSGOLION – RHESTR FER

Eglurodd ymgynghorydd recriwtio'r Cyngor wrth yr aelodau sut y cynhelir y broses recriwtio. Roedd yr aelodau wedi derbyn o flaen llaw *curriculum vitae* y 5 ymgeisydd a oedd wedi ymgeisio ac a oedd wedi cael eu hystyried gan yr ymgynghorydd a'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes fel rhai a allai fod yn addas ar gyfer eu hystyried ymhellach ac sydd wedi derbyn cyfweliad cychwynnol ar gyfer y swydd. Soniodd yr Ymgynghorydd fod 3 ymgeisydd arall wedi ymgeisio ar ôl hynny.

Rhoddwyd adroddiad ar lafar ar bob ymgeisydd ynghyd ag argymhelliad yn y cyfarfod.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i rinweddau bob un o’r ceisiadau.

***PENDERFYNWYD***

*(a) fod ymgeiswyr 2, 4 a 5 yn symud ymlaen i’r Ganolfan Asesu.*

*(b) fod ymgeiswyr 1, 6 a 7 yn symud ymlaen i’r Ganolfan Asesu oni bai fod yr Ymgynghorydd a Chyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes yn argymell yn wahanol.*

*(c) yn dilyn casgliad y Ganolfan Asesu bod y Panel yn ail ymgynnull am 5.30pm ddydd Mercher 23 Ionawr 2008 i nodi’r ymgeiswyr a fydd yn symud ymlaen i’r cyfweliad terfynol a fydd yn dechrau am 8.30am ddydd Iau 24 Ionawr 2008 a phenderfynu ar gwestiynau ac amserlen y cyfweliad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10pm.

********